

Tro drwy diroedd amaethyddol braf ac ar hyd y glannau lle mae bywyd gwylt yr arfordir ar ei orau, yn rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE).

Manylion y daith

Amcan o hyd: 10.4 km/6.5 milltir.

Amcan o'r amser: 3.5 awr.

Map AO: graddfa 1:25 000 Explorer 253.

Man cychwyn/gorffen: Ochr ffordd pentref Edern, SH277 398.

Mynediad a chyfleusterau

Parcio: Digon o le parcio ar ochr y ffordd yn y pentref, LL53 8YP.

Bws: Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

Toiledau: Mae rhai toiledau cymunedol ar gael ger y traeth ym Mhorth Dinllaen.

Lluniaeth: Nodwch oriau agor Tafarn Tŷ Coch, Caffi Fferm Porth Dinllaen; Tafarn y Ship yn Edern, a Woodlands ar y cyrion.

Nodwch

- Braslin yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO uchod**.

- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad:

Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch

naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf



7 Cylchdaith Edern



Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

Ar ôl cerdded i lawr stryd Edern (i lawr at y bont, i gyfeiriad Morfa Nefyn), mae'r daith yn mynd â chi ar hyd llwybr ar draws caeau amaethyddol at ffordd drol. Trowch i'r dde am fferm Porth Dinllaen, i'r chwith drwy ran o'r buarth ac yna ar draws maes carafanau, ar hyd llwybr rhwng dau glawdd, ac at Faes Golff Nefyn. Ymlaen ar eich union nes cyrraedd adeilad y Clwb Golff a dilyn y lôn darmac drwy'r maes golff am bentref Porth Dinllaen. O'r traeth yno, gallwch ddilyn llwybr yr arfordir o amgylch y trwyn ac yna tua'r gorllewin – bydd yn dod â chi at gilfach ddiddorol Aber-geirch a'i phompren dros afon Geirch. Dilynwch y llwybr ar hyd ben rallt wedyn a thro i am y tir ychydig uwch ben Porth Tŷ Mawr. Croesi caeau nes cyrraedd lôn darmac wledig a aiff â chi'n ôl at lôn bost Edern. Troi i'r chwith ac yn ôl at y car/safle bws.



Mannau o ddiddordeb

Yn yr **Hen Felin** ① wrth afon Geirch yng ngwaelod y pentref y byddai J. Glyn Davies, awdur caneuon Fflat Huw Puw ac eraill, yn arfer treulio'i wyliau gyda'i deulu. Cafodd y cyfnodau hynny dylanwad mawr ar y bardd a'r cyfansoddwr.

Mae'r cwrs golff ar benrhyn **Porth Dinllaen** ②. Enw hen gwmwd yn Llŷn yw Dinllaen. Mae porthladd a bae Porth Dinllaen yn un o lecynnau harddaf Cymru. Bu'n harbwr diogel i longau yn yr hen ddyddiau a chafodd ei ystyried fel lleoliad prif borthladd i Iwerddon yn nechrau'r 19^{eg} ganrif, cyn codi pontydd Menai. Mae nifer o bysgotwyr yn gwneud bywoliaeth yn y borth o hyd ac mae cwch achub pwysig yno.

Ym Mhorth Dinllaen y sefydlwyd y **Bad Achub** cyntaf yng Nghymru ac agarwyd adeilad newydd i gartrefu'r gwasanaeth yno ③. Erbyn canol y 19^{eg} ganrif, roedd bron i fil o longau'n galw heibio'r bae yn flynyddol, amryw ohonynt yn cysgodi rhag stormydd Môr Iwerddon. Roedd yn anochel bod damweiniau a llongddrylliadau yn digwydd yn gyson yno a chodwyd cwt i gwch achub yno yn 1864.

Mae pentref **Porth Dinllaen** bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a fuddsoddodd yn helaeth yn harddwch y llecyn rai blynyddoedd yn ôl drwy dynnu'r wifrau trydan i lawr a'u lleoli dan ddaear. Atyniad poblogaidd ar y traeth yw tafarn Tŷ Coch ④. Roedd y dafarn ymseg y tair tafarn uchaf pan bleidleiswyd am 'Dafarn Draeth Orau'r Byd' ym mhapur newydd y *Guardian* yn 2014.

O gilfach **Aber-geirch** ⑤ y rhedwyd cêbl teliffon i Howth yn Iwerddon, 64 milltir i ffwrdd, yn 1913.

Gorwedd **Cors Geirch** ⑥ i'r de-ddwyrain o Edern. Mae afon Geirch yn llofo drwy gors sy'n gynefin pwysig i rywogaethau prin o flodau a llystyfiant. Mae'n Warchodfa Natur ond gellir cael mynediad iddi wrth droi am Gedio oddi ar ffordd A497 Pwllheli/Nefyn (SH308 382).



This is a walk through pleasant agricultural lands and along the shores where the coastal wildlife is at its best - part of Llŷn's Area of Outstanding Natural Beauty (AONB).

Walk details

Approx. Distance: 10.4 km/6.5 miles.

Approx Time: 3.5 awr.

OS Map: 1:25 000 scale Explorer Map 253.

Start/Finish: Roadside parking in Edern village, SH277 398.

Access and amenities

Parking: Plenty of spaces along village roadside, LL53 8YP.

Bus: See Llŷn Coastal Bus service: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

Toilets: Community toilets are available near the beach, Porth Dinllaen.

Refreshment: Refer to the opening hours of the Tŷ Coch Inn, Porth Dinllaen Farm Café; Ship Inn in Edern and Woodlands nearby.

Please note

- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code:
Respect, Protect, Enjoy
naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf



7 Edern Circular walk



Walk directions

Walk down Edern's main street (towards the bridge, in the direction of Morfa Nefyn), take the path across agricultural farmland to a cart track. Turn right towards Porth Dinllaen farm, left through part of the farmyard, past the caravan site, along a path between two hedges and towards Nefyn Golf Course. Straight on to the Clubhouse and follow the tarmac road through the course to the village of Porth Dinllaen. From the beach, follow the coastal path around the headland and then head west – this will bring you to the interesting cove of Aber-geirch and its footbridge over the river Geirch. Follow the path along the clifftop then turn inland slightly above Porth Tŷ Mawr. Here you'll walk across fields until you reach a rural tarmac road which will take you back to the main Edern road. Turn left and head back towards your car/bus stop.



Points of interest

J. Glyn Davies, author of the Fflat Huw Puw songs, amongst others, used to spend his family holidays at **Hen Felin** ①. These periods greatly influenced the poet and composer.

The golf course is located on the **Porth Dinllaen** ② peninsula. Dinllaen is the name of an old commune in Llŷn. Porth Dinllaen bay is one of the most beautiful places in Wales. It was a safe harbour for ships in the olden days and was considered to be the main port to Ireland at the beginning of the 19th century, before the construction of the Menai bridges. Several fishermen earn their living here to this day and it houses an important lifeboat.

The first **Lifeboat** in Wales was founded in Porth Dinllaen and a new building was opened to house the service ③. By the mid 19th century, almost a thousand ships called by the bay each year, many of them sheltering from the Irish Sea storms. Inevitably, accidents and shipwrecks were a regular occurrence and a lifeboat hut was built here in 1864.

The village of **Porth Dinllaen** is now owned by the National Trust, who invested extensively in the beauty of the area some years ago by replacing the overhead power lines with underground cables. A popular attraction on the beach is the Tŷ Coch Pub ④. The pub was rated among the top three in a vote for the 'World's Best Beach Pub' in *The Guardian* in 2014.

A telephone cable was run from **Aber-geirch** cove ⑤ to Howth in Ireland, 64 miles away, in 1913.

Cors Geirch ⑥ lies to the south east of Edern. The river Geirch flows through a marsh which is an important habitat for rare species of flowers and vegetation. It's a Nature Reserve but can be accessed by turning towards Ceidio from the A497 Pwllheli/Nefyn road (SH308382).

